AELOD SENEDDOL DROS YNYS MÔN

# Virginia CROSBIE

Mawrth 2024



Y wybodaeth ddiweddaraf am waith Virginia ar Ynys Môn a San Steffan

virginiacrosbiemp | Y newyddion diweddaraf yn virginiacrosbie.co.uk

# Eich Llais wrth wraidd Llywodraeth y DU

## Swyddi Lleol i Bobl Leol

**Fy Mlaenoriaethau Dros Ynys Môn**

1. Creu Porthladd Rhydd
2. Cyflawni Niwclear Newydd
3. SWYDDI LLEOL I BOBL LEOL
4. Brwydro am drydedd pont dros y Fenai
5. Annog sero net o Ynys Ynni
6. Gwella mynediad at iechyd




Gyda thîm Jones Bros yn is-orsaf Morlais




Phoenix metals yn ymrestru gyda 'Swyddi lleol i bobl leol'.




Gyda KEPCO yn Wylfa

**Rwy'n benderfynol o ddod â swyddi o safon a ffyniannus i Ynys Môn, a dyma pam rwyf wedi hyrwyddo:**

- **Cronfa Adnewyddu Cymunedol gwerth £2.7m:** a fu'n gymorth i fusnesau lleol greu tua 90 o swyddi a chyfleoedd newydd.
- **Porthladd Rhydd Ynys Môn:** mae swyddi eisoes wedi'u creu i reoli'r rhaglen, a thrawsnewid hen safle Alwminiwm Môn yn Barc Ffyniant. Rhagwelir y bydd y Porthladd Rhydd yn creu hyd at 13,000 o swyddi yng Ngogledd Cymru, gydag o leiaf 1,000 ohonynt ar Ynys Môn.
- **Y Gronfa Ffyniant Bro £17m:** mae pobl leol yn cael eu cyflogi i adfywio Canol Tref Caergybi, gyda disgwyl cael 65 o swyddi parhaol, hirdymor yno wedi i'r gwaith ei gwblhau.
- **Cronfa Ffyniant ar y Cyd gwerth £16.1m:** cefnogi 25 o brosiectau ffyniant ar Ynys Môn, gyda £400k wedi ei neilltuo yn benodol ar gyfer clybiau chwaraeon a sefydliadau gwirfoddol Ynys Môn.
- **Niwclear newydd yn Wylfa:** Mae Llywodraeth y DU mewn trafodaethau i brynu'r safle gan Hitachi. Mae'r potensial gan Wylfa i greu 9,000 o swyddi ym maes adeiladu, ynghyd â 900 o swyddi hirdymor eraill.

Mae angen y buddsoddiad hwn arnom i alluogi pobl leol i aros yma ar Ynys Môn i fagu eu teuluoedd, ac amddiffyn yr iaith Gymraeg.

Dyna'r rheswm y bu imi sefydlu'r ymgyrch 'Swyddi lleol ar gyfer pobl leol'. Rwy'n ymweld â busnesau ledled yr ynys. Yn ogystal, rwy'n mynd â chwmnïau eraill sydd â diddordeb mewn buddsoddi ar Ynys Môn o amgylch yr ynys. Rwy'n annog y busnesau hyn i ymrwymo'n gyhoeddus i hyfforddi a chyflogi pobl leol trwy danysgrifio i fy ymgyrch. Mae cwmnïau byd-eang eisoes wedi ymrestru.

Drwy ymrestru maent yn cydnabod pwysigrwydd ein hiaith a'n diwylliant lleol, ein hangen am sefydlogrwydd economaidd hirdymor, ac angerdd pobl leol i fyw a gweithio ar yr ynys.

### FFEITHIAU AM SWYDDI LLEOL I BOBL LEOL

1. Mae 22 o gwmnïau wedi ymrestru.
2. Mae'n rhoi blaenoriaeth i bobl yr ynys.
3. Mae'n amddiffyn yr iaith Gymraeg.
4. Mae'n cadw cymunedau gyda'i gilydd.

## Cysylltwch ynghylch

- Unrhyw broblem neu bryder lleol
- Eich straeon o lwyddiant, arwyr, digwyddiadau neu fusnesau lleol
- Ffyrdd y gallwch fy nghefnogi wrth i mi weithio i ddenu newid cadarnhaol i Ynys Môn
- I ddweud helô a chyflwyno eich hun

### Dewch i ni gydweithio i wella Ynys Môn

Treuliwch ddau funud yn llenwi fy holiadur. Dyma'ch cyfle i ddweud wrthyf yr hyn sy'n bwysig i chi a'ch cymuned cymraeg.virginiacrosbie.co.uk/cy/campaigns

## Cofrestrwch eich busnes gyda'r ymgyrch 'Swyddi lleol i bobl leol'

Os oes gennych chi fusnes sydd wedi ei sefydlu eisoes ar Ynys Môn, neu os ydych chi'n awyddus i ymsefydlu ar yr ynys, rhowch wybod i ni. Rwy'n awyddus i gymaint o sefydliadau â phosib sylweddoli pwysigrwydd swyddi lleol a hyfforddiant ar gyfer pobl leol, drwy ymrestru gyda'r ymgyrch.

**Cysylltwch: cymraeg.virginiacrosbie.co.uk/cy/SLiBL**

Conservatives
Gweithredu dros Ynys Môn

**Ffôn:** 01407 470747
**Ebost:** virginia4ynysmon@gmail.com.
facebook.com/VirginiaCrosbieMP | virginiacrosbie.co.uk

Nid yw arian y trethdalwr wedi cyfrannu at argraffu a dosbarthu'r pamffled hwn

Argraffwyd gan WO Jones (Argraffwyr) Ltd, Llangefni, LL77 7JA

Hyrwyddwyd gan Bethan Davies, ar ran Virginia Crosbie AS, y ddau d/o Blwch Post 85, Caergybi LL77 9BZ

# Cyllid Ffyniant Bro yn cynnig Cyfleoedd Lleol

**Y llynedd addawodd Llywodraeth y DU y byddai'n rhoi £17m o'i Chyllid Ffyniant Bro tuag at y gwaith o drawsnewid Caergybi a fyddai wedi'i ysgogi gan ddiwylliant a threftadaeth.**

Mae'r arian hwn bellach yn dechrau dod i'r amlwg yng nghanol y dref. Mae Eglwys Sant Cybi yn cael ei hadnewyddu i greu ardal fwy hygyrch i'r gymuned gyda chynlluniau i greu caffi menter gymdeithasol yn Eglwys y Bedd.

Mae Canolfan Ucheldre yn cael ei ymestyn i ddarparu cyfleoedd i bobl leol gymryd rhan yn y celfyddydau creadigol. Mae llochesau Newry yn cael eu hadnewyddu a'u paratoi ar gyfer busnesau lleol Island Bakes, Môn Ice, Cuffed-in Coffee ac Anglesey Hamper Company. Mae'r pedwar wedi cofrestru ar gyfer fy ymgyrch Swyddi Lleol i Bobl Leol.

Bydd adeiladau mawr gwag yng nghanol y dref, gan gynnwys cyn swyddfeydd y Cwmni Gyrfa yn Sgwâr y Farchnad a hen Fanc y Midland, yn cael eu trawsnewid i alluogi busnesau lleol newydd a'r rhai sy'n ehangu i symud i mewn iddynt.

Noddais a chefnogais gais y Gronfa Ffyniant Bro oherwydd bod darparu swyddi lleol i bobl leol wrth wraidd y cyfan. Bydd y rhaglen waith yn trawsnewid Caergybi i fod yn dref gynhyrchiol a llewyrchus unwaith eto gyda mwy o swyddi a chyfleoedd i drigolion yr Ynys, ac rwy'n falch o'r hyn y mae'r tîm sy'n gweithio arni wedi'i gyflawni.


Y busnesau sy'n symud i mewn i'r Ciosgs Newry newydd

## FY NGWAITH MEWN RHIFAU

**22,100**
O achosion wedi'u hymdrin

**600**
o gyfraniadau llafar yn ystod Achosion Seneddol

**516**
o gwestiynau a llythyrau at Weinidogion

**322**
o sylwadau am Ynys Môn yn y Senedd

**£89m**
o gyllid gan Lywodraeth y DU wedi'i neilltuo i Ynys Môn

**22**
Gweinidog yn ymweld ag Ynys Môn a dau Brif Weinidog

# Helpu fy etholwyr

**Dim ond un rhan o'r jig-so yw creu cyfleoedd cyflogaeth. Mae'n bwysig helpu pobl i gael mynediad at swyddi, a helpu busnesau lleol i fanteisio ar gyfleoedd cadwyn gyflenwi newydd.**

Dyma'r rheswm i mi gydweithio gyda'r Canolfannau Gwaith lleol i gynnal pedair Ffair Swyddi ar Ynys Môn. Ynghyd â Thîm Porthladd Rhydd, rydym wedi cyflwyno chwe seminar ar yr ynys.

Cynrychiolir hyd at 25 o gwmnïau ym mhob ffair, a mynychwyd y ffeiriau gan gannoedd o bobl leol. Rydym wedi canolbwyntio ar bobl sydd ers amser maith wedi wynebu heriau o ran cael mynediad at gyflogaeth, gan gynnwys y rhai dros 50 oed, a'r rhai ag anableddau.

Mae nifer o unigolion a busnesau lleol wedi mynychu Seminarau Porthladd Rhydd i ddarganfod mwy am sut mae modd elwa, a chael cyflogaeth o'r fenter gyffrous hon.

> *Mae Cwmni Adeiladu John Kelly yn ymroddedig i gyflogi gweithlu lleol. Rydym wedi ein lleoli ar Ynys Môn ac mae'n bwysig i ni fod cyfleoedd cyflogaeth ar gael ar gyfer y bobl leol."* Lisa Kelly Roberts, Cwmni Adeiladu John Kelly


Y tîm yng Nghwmni Adeiladu John Kelly

> *Rydym yn teimlo'n angerddol dros ddarparu cyfleoedd gyrfaol yng ngogledd Cymru i bobl leol weithio ar brosiectau sydd ar eu stepen drws."* Huw Jones MBE, Cadeirydd Jones Bros.

> *Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'r busnes ar Ynys Môn, a pharhau i recriwtio a datblygu staff o'r ardal leol."* Daniel Bamford, Metex


Henry Brooke yn y Ffair Swyddi Anabledd

> *"Rwy'n eiriolwr dros gadw gweithlu lleol. Gyda chefnogaeth ariannol LUF, rydym yn datblygu ein gweithlu lleol, gan greu mwy o gyfleoedd yn yr ardal leol. Yn ogystal, rydym yn gwneud ein strydoedd yn fwy diogel, ac yn croesawu'r syniad o Borthladd Rhydd sy'n ymwneud â grymuso economi'r ynys. Gadewch i ni adeiladu Caergybi ac Ynys Môn gyda'n gilydd!"* Kristian Cuffin, Cuffed In Coffee.


Ffair Swyddi Anabledd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol Mel Stride a Kristian Cuffin o Cuffed In Coffee.

# Eisiau cymryd rhan?

**Rwyf yn gweithio'n galed dros Ynys Môn, ar brosiectau megis Porthladd Rhydd Ynys Môn, sicrhau niwclear newydd ar gyfer Wylfa, datblygu trydydd pwynt croesi dros y Fenai, yn ogystal â chefnogi'r gymuned drwy gael gafael ar gyllid ar gyfer prosiectau megis ffyniant bro Caergybi, datblygu sgiliau, a darpariaeth yr iaith Gymraeg yn Ynys Môn.**

Rwyf wedi codi dros £30,000 ar gyfer elusennau lleol, dathlu dros 50 o Arwyr Cudd Ynys Môn, wedi denu ugain o Weinidogion (gan gynnwys dau Brif Weinidog) i ymweld â'r ynys, ac wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau cymunedol a ffeiriau swyddi.

Rwyf yn caru Ynys Môn ac rwyf eisiau parhau i ddarparu dros bawb yma – waeth sut bu iddynt bleidleisio – ond rwyf angen eich cefnogaeth i wneud hynny. Mae llawer o ffyrdd y gallwch gyfrannu i fy nghadw fel eich AS yn ystod yr Etholiad Cyffredinol nesaf.

Felly, os ydych chi'n cefnogi fy ngwaith dros wella bywydau pobl ar Ynys Môn, ac eisiau i mi barhau, e-bostiwch virginia4ynysmon@gmail.com neu ffoniwch 01407 470747.